**Cân yr Elfennau**

Fy ngwaith ydi sgwennu caneuon i gantorion mwya'r byd,
Creu alawon hawdd i'w canu a'u chwibanu ar y stryd.
Eu saernio yn ofalus, o ran siap a ffurf a llun,
Dewis cywair trist neu hapus, dewis nodau bob yn un.

Gosod ambell nodyn uchel, gosod eraill llawer is,
I amrywio'r **TRAW'n** effeithiol ac apelio at y glust.
O ran siap, rhaid cael **ADEILEDD** llawn patrymau, bachog, clir,
A **PHARHAD** trwy ddilyn rhes o nodau byrion ac un hir.

**CYFLYMU'n** raddol weithiau i greu cyffro a chreu stŵr,
Ar CYFLYMDER sy'n ARAFU – fel cerddediad rhyw hen ŵr.
Rwy'n rhoi sylw i **DDYNAMEG**: seiniau tawel, seiniau cryf.
Creu **DISTAWRWYDD** – i gael effaith go ddramatig ar y llif.

Beth am **ANSAWDD** y gerddoriaeth, pa fath liw gaf roi i'r sain?
Lleisiau bechgyn, lleisiau merched, seiniau melys, seiniau main?
Beth am ddisglair sain y trwmped, beth am grasder y trombôn?
Neu y ffliwt a'i seiniau hudol: rhaid amrywio'r lliw a'r tôn.

Cytgan: Dewis y **GWEAD,** dyna wnaf i:
Canu mewn unsain neu harmoni.
Tenau neu drwchus? Deulais neu dri?
Dyna'r dewis sydd gen i!